**Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol**
—
**Equality and Social Justice Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCydraddoldeb@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCydraddoldeb
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEquality@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEquality
0300 200 6565

Y Gwir Anrhydeddus Dominic Raab AS
Yr Arglwydd Ganghellor ac Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder

22 Mawrth 2022

Annwyl Dominic

## Ymgynghoriad Llywodraeth y DU i ddiwygio Deddf Hawliau Dynol 1998

Trafododd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol eich llythyr ac ymgynghoriad Llywodraeth y DU yn ei gyfarfodydd ar 10 Ionawr 2022 a 7 Mawrth 2022. Gwnaethom ofyn i nifer cyfyngedig o randdeiliaid yng Nghymru rannu eu barn ar yr ymgynghoriad â ni, ac rydym yn ymwybodol bod rhai hefyd wedi ymateb i chi yn annibynnol. Er nad yw'r amserlen wedi caniatáu i ni gyfrannu ymateb mwy trylwyr ar hyn o bryd, rydym wedi nodi ein prif sylwadau mewn perthynas â'r ymgynghoriad isod, yn seiliedig ar farn yr Aelodau a'r mewnbwn a gawsom hyd yma.

### Adolygiad Annibynnol ar Hawliau Dynol

Nodwn ganfyddiadau'r Adolygiad Annibynnol ar Hawliau Dynol ac yn benodol ei gasgliad bod y Ddeddf Hawliau Dynol wedi bod yn llwyddiant, ac nad yw'n eiriol dros newid radical. Rydym yn cefnogi'n benodol ei argymhelliad bod angen mwy o addysg ynglŷn â'r Ddeddf Hawliau Dynol (y Ddeddf) i gynyddu perchnogaeth gyhoeddus o'r Ddeddf ac i greu diwylliant o hawliau dynol.

### Cynnydd yng Nghymru o ran hawliau dynol

Rydym yn cydnabod nad yw hawliau dynol wedi'u datganoli, ond rydym yn ymwybodol mai sefydliadau datganoledig Cymru, gan gynnwys Senedd Cymru, sy'n gyfrifol am ddiogelu hawliau dynol yng Nghymru a'u gweithredu, a bod *Deddf Llywodraeth Cymru 2006* yn ymgorffori hawliau'r Confensiwn. Nododd un o'n rhanddeiliaid:

> *"The proposed changes set out in the consultation are a constitutional matter with implications for the exercise of legislative and executive competence in Wales and other devolved contexts."*

Mae Llywodraeth Cymru wedi cymryd nifer o gamau i wella a chryfhau hawliau pobl sy'n byw yng Nghymru, ac yn parhau i wneud hynny, drwy gomisiynu ei hymchwil ei hun i'r maes hwn yn ddiweddar.

Mae ein rhanddeiliaid wedi mynegi pryder yn benodol am y goblygiadau posibl ar gyfer cynnig Llywodraeth Cymru i ymgorffori Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Dileu pob math o Wahaniaethu yn erbyn Menywod a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl yng nghyfraith Cymru.

O'r ymatebion a gawsom yn uniongyrchol a'r rhai yr ydym yn ymwybodol ohonynt yn ehangach, mae'n amlwg bod cryn bryder yng Nghymru ynghylch effaith yr hyn a gynigir ar y potensial i Gymru barhau â'i chynnydd ar hawliau dynol.

## Statws y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol

Rydym yn croesawu ymrwymiad Llywodraeth y DU i barhau i fod yn rhan o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, ac i barhau i gynnal ei rhwymedigaethau o ran hawliau dynol rhyngwladol. Fodd bynnag, rydym yn pryderu bod diffyg eglurder yn yr ymgynghoriad ynghylch pa statws a fyddai ganddo yn y Bil Hawliau, gan gynnwys i ba raddau y byddai'r diwygiadau'n golygu gwneud newidiadau i hawliau sylweddol mewn cyfraith ddomestig ac, yn ogystal â hynny, a fyddai unrhyw newidiadau yn arwain at wneud newidiadau i gymwyseddau datganoledig Llywodraeth Cymru a'r Senedd.

Mae ein rhanddeiliaid wedi pwysleisio'r angen i amddiffyn hawliau i'r un graddau o leiaf â'r rhai yn y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, a dim is na hynny, gydag un yn benodol yn nodi y gallai'r newidiadau arfaethedig i Adran 3 wanhau amddiffyniadau hawliau dynol yng Nghymru os nad ydynt yn cynnal hawliau'r Confensiwn i'r safon y mae Llys Hawliau Dynol Ewrop yn Strasbwrg wedi'i hystyried yn angenrheidiol.

## Effaith y cynigion ar nodweddion gwarchodedig

Rydym yn deall bod pryderon ynglŷn â phroblemau presennol o ran y rhwystrau ymarferol i orfodi hawliau dynol a mynediad at gyfiawnder, y mae rhai ohonynt yn cael effaith anghymesur ar bobl â nodweddion gwarchodedig. Yn yr achos hwn, mae ein rhanddeiliaid wedi awgrymu y byddai angen asesu effaith y cynigion ar nodweddion gwarchodedig a chymryd camau i liniaru unrhyw rwystrau rhag gorfodi hawliau sy'n effeithio ar grwpiau penodol.

Fel Pwyllgor, mae trafod a chraffu ar hawliau dynol yn ganolog i'r gwaith a wnawn a byddwn yn cymryd diddordeb mawr felly yn y broses o ddatblygu eich cynigion. Er ein bod yn siomedig nad oedd yr ymgynghoriad yn cynnwys llawer o gyfeiriadau at ddatganoli, ac at Gymru yn benodol, byddem yn annog ymgysylltiad pellach â'r sefydliadau datganoledig ar bob cam o'r broses.

Hoffem ddiolch i chi am y cyfle i gynnig ein barn fel rhan o'r broses hyd yn hyn a byddwn yn ystyried ymgysylltu ymhellach yn y fersiwn nesaf o'r cynigion, pan fydd rhagor o fanylion ar gael.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad.

Yn gywir



Jenny Rathbone AS
Cadeirydd, y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol